Arolygiaeth Gofal **Cymru**

Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Lauren Ryland**

**Llanfair-ym-Muallt**



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

28/6/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr plant |
| Lleoedd cofrestredig | 9 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 23 Hydref 2020 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Nac ydy. Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn diwallu anghenion Cymraeg y bobl / y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu sy'n bwriadu defnyddio'r gwasanaeth. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Digonol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Gwael** |

Am fwy o wybodaeth ar sgoriau, gweler diwedd yr adroddiad hwn.

## Crynodeb


Mae gan y plant lais da ac maent yn mynegi eu hunain yn dda. Maent yn hapus ac wedi ymgartrefu yn y lleoliad ac yn rhyngweithio'n gadarnhaol ag eraill. Mae'r plant yn datblygu sgiliau annibyniaeth ac yn mwynhau'r hyn a wnânt a gallant ddewis a chymryd rhan ym mhob gweithgaredd.

Mae'r gwarchodwr plant a'i chynorthwywyr yn deall ac yn gweithredu bron pob polisi a gweithdrefn ac yn cadw'r plant yn ddigon diogel. Maent yn garedig tuag at y plant ac yn darparu rhyngweithio cadarnhaol i sicrhau bod plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn lân ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda y tu mewn a'r tu allan. Mae hi'n darparu ystod dda o adnoddau sy'n ysgogi plant o bob oedran a chyfnod datblygiad er mwyn meithrin sgiliau datblygiadol y plentyn.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau ei bod yn cydymffurfio â'r rhan fwyaf o'r rheoliadau ac yn bodloni'r safonau gofynnol cenedlaethol. Mae partneriaethau yn gadarnhaol ac mae ei chynorthwywyr yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi. Rydym wedi dyroddi dau hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth a dau faes i'w gwella, ac wedi gwneud tri argymhelliad.

| **Llesiant** | **Da** |
|---|---|

Mae'r plant yn hapus ac yn hyderus i gyfathrebu eu hanghenion a chânt gyfleoedd priodol i wneud y rhan fwyaf o ddewisiadau a phenderfyniadau. Mae'r plant yn gofyn am rai dewisiadau gweithgaredd a gwelsom nhw'n gofyn am, ac yn dewis, adnoddau yn yr ardal chwarae awyr agored, er enghraifft cychod a chynwysyddion eraill ar gyfer y blwch dŵr bach. Mae'r plant yn hyderus i ddewis adnoddau sy'n hygyrch iddynt dan do ac yn mwynhau'r rhyddid i symud o gwmpas yr ardal chwarae. Perchir dymuniadau'r plant nad ydynt am fwyta wrth y bwrdd, gan gydnabod a deall anghenion unigol.

Mae'r plant yn fodlon ar arferion cyfarwydd ac yn edrych yn hamddenol pan fyddant yn symud o gwmpas y lleoliad. Maent yn dangos perthynas agos â'r gwarchodwr plant a'i chynorthwywyr ac yn teimlo'n ddiogel, gan ofyn am fwythau ar ôl iddynt gysgu. Mae plant iau yn mwynhau mwythau ac yn mynd at yr oedolion pan fyddant wedi blino. Mae'r babanod yn bwyta eu cinio yn hapus wrth arsylwi'r plant hŷn yn chwarae. Mae'r plant yn teimlo'n gyffrous pan ellir eu cynnwys yn y teithiau i godi plant o'r ysgol a gwelsom un plentyn yn gwenu ac yn neidio i fyny ac i lawr gyda chyffro, yn cofleidio'r gwarchodwr plant, pan gafodd ei ddewis i fod yn rhan o'r daith.

Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r gwarchodwr plant a'r cynorthwywyr yn gadarnhaol, gyda rhyngweithio da yn ystod amser byrbryd a chinio, pan fydd plant yn cydweithio ac yn ymateb i sylwadau ei gilydd. Cynhwysir Cymraeg achlysurol mewn gweithgareddau megis amser stori. Yn ystod ein hymweliad, clywsom blant yn ailadrodd rhai geiriau Cymraeg. Mae'r plant yn helpu ei gilydd yn eu chwarae ac maent yn amyneddgar pan fydd rhai plant yn ei chael hi'n anodd rhannu.

Mae'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ac yn dangos mwynhad. Gwelsom blant yn chwarae â chlai, lle gwnaeth un plentyn doesen o glai a'i rhoi i'r arolygydd gan ddweud 'Mae hwn i'r meddyg' wrth wisgo masg clinigol. Mae'r plant yn mwynhau bod yn yr awyr agored a gwelsom ni nhw'n gwegian gyda chyffro pan ddaeth y gwarchodwr plant â'r bibell ddŵr allan i lenwi'r blwch dŵr. Mae'r plant yn cael eu cefnogi yn eu chwarae a'u chwilfrydedd, a gwelsom sawl achlysur pan ofynnodd y plant gwestiynau megis 'Beth yw hwnna?' gyda'r oedolion yn cefnogi diddordebau'r plant gydag ymatebion priodol a geirfa bellach.

Comment [GI1]: Enw cwmni

Comment [GI2]: cysoni

Mae'r plant yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth, fel yn ystod amser cinio, ac yn cael eu hannog i ddweud 'os gwelwch yn dda' a 'diolch'. Gwelsom blentyn yn helpu'r gwarchodwr plant amser cinio trwy gario platiau o fwyd at y byrddau. Mae'r plant yn bwydo eu hunain gyda bwydydd bys a bawd sy'n cael eu gosod o'u blaenau. Maent yn datblygu annibyniaeth trwy wisgo eu hesgidiau a'u hesgidiau glaw eu hunain neu reidio tractorau a threiciau yn annibynnol. Mae'r plant o oedran ifanc yn tynnu eu hunain i fyny er mwyn sefyll ac yn llwyddo i gerdded i ystyn pethau drostynt eu hunain o fewn eu cyrraedd, dan do ac yn yr awyr agored.

| **Gofal a Datblygiad** | **Digonol** |
|---|---|

Mae'r rhan fwyaf o bolisïau a gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod iechyd a diogelwch y plant yn cael eu bodloni. Mae'r gwarchodwr plant a'r cynorthwywyr yn dilyn arferion hylendid yn briodol, er enghraifft gwisgo menig wrth newid clytiau. Maent yn sicrhau preifatrwydd ac urddas pan fydd plant yn defnyddio'r toiled neu'n cael eu newid ac yn sicrhau bod potiau, cymhorthion toiled ac adnoddau eraill yn hawdd eu cyrraedd. Mae'r gwarchodwr plant a'r cynorthwywyr yn annog y plant i ymolchi eu dwylo cyn bwyta ac yn glanhau byrddau a chadeiriau uchel cyn prydau bwyd. Fodd bynnag, nid yw pob cynorthwyydd yn ymolchi ei ddwylo cyn cinio ac maent yn defnyddio'r un tywel llaw i sychu dwylo. Mae cofnodion meddyginiaeth, damweiniau a digwyddiadau wedi'u sefydlu a chyflwynwyd cofnodion newid clytiau ychwanegol yn dilyn ein hymweliad, er mwyn sicrhau mesurau diogelu pellach. Nid oedd pob cynorthwyydd yn dangos dealltwriaeth gyson a chlir o weithdrefnau diogelu a darparodd y gwarchodwr plant dystiolaeth bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelu yn dilyn yr ymweliad arolygu. Canfuom nad oedd pob cynorthwyydd wedi cael tystysgrif uwch gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyn recriwtio ac, er nad oes angen gweithredu ar unwaith, gan fod y darparwr wedi cymryd camau, mae hwn yn faes i'w wella, a disgwyliwn i'r darparwr gwblhau'r broses. Mae asesiadau risg yn sylfaenol ac mae mesurau ar waith i ymdrin ag atal peryglon yn gyffredinol. Yn gyffredinol, mae'r gwarchodwr plant yn dilyn y canllawiau bwyd a maeth ac wedi cofrestru gyda'r Asiantaeth Safonau Bwyd. Mae'r plant yn dod â'u pecynnau bwyd eu hunain gyda'r gwarchodwr plant yn darparu byrbrydau yn unig. Mae'r plant yn gallu mynd at eu poteli dŵr trwy gydol y dydd, gyda'r rhain yn cael eu storio ar silffoedd ffenestri isel. Fodd bynnag, gwelsom gwpanau o ddiodydd poeth oedd wedi oeri ar silff ffenestr isel, yn peri risgiau i'r plant, a nododd y gwarchodwr plant y byddai'n mynd i'r afael â hyn ar unwaith.

Mae'r gwarchodwr plant a'r cynorthwywyr yn frwdfrydig ac yn manteisio ar gyfleoedd i ryngweithio â'r phlant a'u hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau. Maent yn cydnabod cyflawniadau'r plant ac yn eu canmol, er enghraifft: 'Waw! Da iawn! Mae hynny'n wych.' Fe'u clywsom hefyd yn cynnig cymorth amser cinio, er enghraifft, 'A hoffet i mi dy helpu i agor dy iogwrt?' Fodd bynnag, collwyd cyfleoedd i ryngweithio â phob plentyn, er enghraifft pan fydd babanod mewn cadeiriau uchel. Dangosodd y gwarchodwr plant a'r cynorthwywyr bryder tuag at blentyn a syrthiodd, gan ofyn iddo a oedd eisiau mwythau. Maent yn awyddus i wrando ar y plant ac ymateb iddynt, er enghraifft, pan fyddant am chwarae â phaent neu fynd allan ar y beiciau.

Mae'r gwarchodwr plant a'r cynorthwywyr yn ymwybodol o ddatblygiad unigol y plant ac yn darparu ystod o weithgareddau chwarae a dysgu sy'n briodol i'w hoedran. Er enghraifft, wrth edrych ar lyfr gyda'r plant, roedden nhw'n cydnabod bod plant yn gwybod beth oedd rhai siapiau yn Gymraeg ac yn eu hannog i adnabod siapiau eraill yn Gymraeg, gan ddweud 'Beth yw hwnna yn Gymraeg? Triongl/triangle, sgwâr/square.' Mae'r oedolion yn fodelau rôl da, gan ddangos i'r plant beth allant ei wneud yn yr awyr agored, er enghraifft, dyfrio planhigion. Maent yn rhoi cyfleoedd i'r plant fod yn annibynnol, er enghraifft gofyn i blant ddod o hyd i'w hesgidiau a'u cotiau eu hunain. Mae'r gwarchodwr plant a'r cynorthwywyr yn cymryd eu hamser i egluro i'r plant beth sy'n digwydd bob amser, fel eu

**Comment [GI3]:** Cysoni â'r isod

**Comment [GI4]:** Llai ffurfiol

bod yn gwybod beth yw eu trefn, a gwelsom dystiolaeth o sut maent yn adolygu datblygiad plant a sut maent yn rhannu gwybodaeth gyda rhieni.

## Yr Amgylchedd Da

Mae'r lleoliad yn fan chwarae diogel sydd wedi'i adeiladu'n bwrpasol ar gyfer plant, gydag amgylchedd awyr agored sy'n gaeedig a diogel, heb fynediad i'r tu allan oherwydd ffens uchel a giât. Er i ni nodi rhai peryglon posibl yn yr ardal chwarae awyr agored, tynnwyd y rhain yn syth ar ôl ein hymweliad. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y plant mewn amgylchedd diogel dan do, er enghraifft trwy gloi drws y porth bob amser, defnyddio gatiau diogelwch, ac atal mynediad i'r prif dŷ / cegin. Mae'r cynorthwywyr yn gwirio'r babanod sy'n cysgu i fyny'r grisiau bob 15 munud ac yn arsylwi ac yn gwrando ar fonitor y babanod yn rheolaidd. Roedd bron pob tystysgrif diogelwch mewn trefn a darparodd y gwarchodwr plant dystiolaeth o dystysgrif nwy ddilys yn dilyn yr ymweliad arolygu.

Mae'r lleoliad yn groesawgar a hygyrch gyda rhai unedau silff isel i'r plant gael mynediad i adnoddau'n annibynnol. Mae mannau chwarae a chorneli chwarae yn darparu ystod o wahanol adnoddau sy'n briodol ar gyfer oedran a chyfnod datblygiad y plant. Mae yna hefyd ardaloedd yn y brif ystafell chwarae lle gall plant ymlacio a gorwedd ar soffa a chlustogau ar ardaloedd â charped. Mae'r man cysgu yn un o'r ystafelloedd gwely i fyny'r grisiau yn cynnwys cotiau teithio i blant dan ddwy oed. Yn y brif ystafell chwarae, mae byrddau a chadeiriau a chadeiriau uchel yn addas ar gyfer oedran a chyfnod y plant y gofelir amdanynt. Mae'r toiled a'r basn ymolchi yn hawdd eu cyrraedd yn y brif ystafell chwarae, gyda chymhorthion pellach i helpu plant iau. Ceir arddangosfeydd ar y waliau – er enghraifft, wal ben-blwydd, silff lyfrau a'r wyddor – sy'n creu arddangosfa liwgar a chroesawgar. Mae'r gwarchodwr plant yn hybu diwylliannau ac amrywiaeth trwy adnoddau chwarae fel doliau. Mae'n defnyddio'r llyfrgell leol i hybu diddordeb y plant mewn llyfrau.

Mae'r adnoddau'n briodol, yn amrywiol ac yn lân. Mae'r ardal allanol hefyd yn cynnwys ystod o adnoddau o safon sy'n cynnig cyfleoedd pellach ar gyfer chwarae a dysgu. Caiff y plant gyfleoedd i fod yn ddychmygus a chreadigol gan fod dewis da o ddillad gwisgo lan, eitemau siop chwarae rôl a chegin, ac adnoddau ar gyfer gwneud marciau, paentio a thoes chwarae. Mae yna hefyd ddigonedd o deganau ac adnoddau ar gyfer chwarae yn yr awyr agored.

| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Gwael** |
|---|---|

Mae'r gwarchodwr plant yn cefnogi ei chynorthwywyr ac mae wedi ymrwymo i wella safonau ar gyfer plant a theuluoedd. Mae'r gwasanaeth wedi'i sefydlu, ond canfuom fod y gwaith o gofnodi rhai arferion rheoleiddio yn anghyflawn. Er enghraifft, nid oedd y gwarchodwr plant wedi hysbysu AGC am newidiadau i'r staff ac, er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella a disgwyliwn i'r darparwr gymryd camau. Nid oedd cofrestrau dyddiol yn cynnwys amseroedd presenoldeb penodol plant a staff, gan roi iechyd a llesiant pobl mewn perygl, ac felly rydym wedi dyroddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â'r mater. Cynhelir arfarniadau staff, ond ni welsom dystiolaeth o gynnal sesiynau goruchwylio i'r staff. Dywedodd y cynorthwywyr wrthym eu bod yn hapus ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, a chadarnhaodd cynorthwyydd newydd ei bod wedi cael ei chroesawu ac wedi cael hyfforddiant sefydlu yn y lleoliad. Nid oedd ffeiliau'r staff yn drefnus, ac ni welsom yr holl ddogfennaeth ofynnol, er enghraifft geirdaon a hanes cyflogaeth. O ganlyniad, mae hyn yn rhoi iechyd a llesiant pobl mewn perygl ac rydym felly wedi dyroddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â'r mater hwn. Mae bron pob un o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol a darparwyd tystiolaeth yn dilyn yr arolygiad o dystysgrifau hyfforddiant pellach.

Mae'r adroddiad ansawdd gofal yn cynnwys barn rhieni a staff a chaiff y cynorthwywyr gyfleoedd i gynnig syniadau hefyd. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym ei bod yn gweithio'n barhaus i wella ei gwasanaeth a'i bod yn gweithredu yn sgil adborth. Mae'r broses gynllunio yn sylfaenol, ond gwelsom dystiolaeth glir o syniadau a gweithgareddau'n cael eu dilyn.

Mae'r gwarchodwr plant yn cyfathrebu'n dda ac yn gefnogol i'r tîm yn y lleoliad, gyda staff yn cael eu cadw'n gyson. Ar ddiwrnod yr ymweliad, dangosodd y gwarchodwr plant i ni sut roedd hi'n rheoli cymarebau ar gyfer teithiau i'r ysgol ac oddi yno, ond nid oes ganddi unrhyw gydsyniadau ysgrifenedig gan rieni.

Dywedodd rhieni wrthym eu bod yn teimlo'n hapus gyda'r gofal y mae eu plant yn ei dderbyn, yn ogystal â'r amgylchedd a'r arweinyddiaeth, a dywedasant eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi. Dywedasant fod eu plant yn hapus ac yn hyderus yn y lleoliad. Gwerthfawroga'r rhieni yr adborth llafar a ddarperir ar ddiwedd y dydd. Mae'r gwarchodwr plant hefyd yn aelod o sefydliadau cefnogi cenedlaethol.

**Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

A1 – Sicrhau bod arferion hylendid yn cael sylw, gan gynnwys ymolchi dwylo a sychu dwylo.

A2 – Sicrhau bod unrhyw ddiodydd neu fwydydd poeth yn cael eu cadw allan o gyrraedd y plant.

A3 – Sicrhau bod y broses o gwblhau arfarniadau a sesiynau goruchwylio yn cael ei datblygu a'i gweithredu.

| Crynodeb o’r Diffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a bydd yn cael ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 28 | Canfuwyd bod ffeiliau'r staff yn anghyflawn. Rhaid i'r darparwr gael yr holl wybodaeth recriwtio cyn cyflogaeth i sicrhau addasrwydd. | Newydd |
| 30 | Cofnodion presenoldeb anghyflawn. Rhaid i'r darparwr gofnodi amseroedd presenoldeb y plant a'r staff. | Newydd |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf.  Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 31 | Heb hysbysu AGC am newidiadau i’r staff. Rhaid i’r darparwr hysbysu AGC am newidiadau perthnasol fel y nodir yn y rheoliadau. | Newydd |
| 20 | Heb gael tystysgrifau manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer pob cynorthwyydd cyn eu cyflogi, ond gweithredodd ar hyn yn brydlon. Rhaid i'r darparwr sicrhau bod gan bob cynorthwyydd dystysgrif fanylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyn dechrau mewn cyflogaeth. | Newydd |

| Sgoriau | Ystyr y sgoriau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy’n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy’n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant, ac yn hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i’w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni’r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i’w gwella na chryfderau a lle mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy’n effeithio’n negyddol ar lesiant plant. Pan fydd gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn dyroddi hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad cyhoeddi** 26/09/2022